

# *YR HEUWR*

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 9
CHWEFROR 2008

Ar ddydd Mercher, y 6ed o Chwefror, fe fydd yna dymor newydd yn dechrau yng nghalendr yr Eglwys, sef tymor y Grawys. Dyma'r cyfnod o ddeugain niwrnod o ymbaratoi ar gyfer gŵyl y Pasg. Yn nyddiau cynnar yr Eglwys Fore yr oedd yn dymor llym iawn am fod disgwyl i bob Cristion ymprydio. Yn wir, dim ond un pryd o fwyd a ganiateid a hynny tua diwedd y diwrnod ac nid oedd modd bwyta cig na physgod na wyau! Ond yn raddol, newidiodd y drefn ac erbyn heddiw y mae pobl yn fwy tebygol o roi'r gorau i fwyta pethau fel siocled a chacennau yn unig. Ond nid tymor o ymwrthod yn unig yw tymor y Grawys. Y mae iddo ystyr llawer mwy dwys na hynny.

Un o'r pethau a fydd yn digwydd yn flynyddol i nodi tymor y Grawys yn nhref Aberystwyth yw astudiaeth feiblaidd a drefnir ar y cyd rhwng capeli Bethel, y Morfa a Seion. Fe'i cynhelir bob nos Iau am 7 o'r gloch a byddwn yn cychwyn ar y 7fed o Chwefror yn y Morfa. Yr wythnos ganlynol bydd y dosbarth yn symud i Fethel cyn mynd ymlaen i Seion yr wythnos wedyn. Testun y maes llafur eleni fydd Llythyr Paul at yr Effesiaid. Mawr obeithiaf y bydd yna gefnogaeth i'r astudiaeth hon oherwydd fel anghydffurfwyr, ychydig iawn o sylw a delir gennym i'r Grawys a braf felly yw ein bod yn nodi'r tymor hwn drwy gynnal dosbarth beiblaidd ar y cyd â chapeli eraill.

Ond wedi dweud hynny beth yw'r pwynt o wneud hyn oll? A oes yna unrhyw wir werth heddiw i gyfnod y Grawys ac i gynnal ryw astudiaeth o lythyr a gyfansoddwyd flynyddoedd maith yn ôl?

Does ond un ateb – oes! Ac fe ddywedaf hynny yn gwbl ddi-flewyn ar dafod! Ymhen chwe wythnos fe fyddwn yn dathlu gŵyl fwyaf yr eglwys, sef gŵyl y Pasg, yr ŵyl sydd yn ein hatgoffa o atgyfodiad ein Harglwydd Iesu yn dilyn ei waith ar groesbren Calfari, digwyddiadau a drodd ein byd wyneb i waered ac sy'n parhau i wyrdroi bywydau pobl ar hyd a lled ein daear heddiw! Onid yw'r Grawys felly yn gyfle inni fyfyrio uwchben y pethau hyn ac i sylweddoli beth yw ein rhan yn y genhadaeth fawr o hyrwyddo teyrnas Iesu Grist? Onid yw'r cyfnod hwn yn gyfle inni agosáu o'r newydd at Un a ddaeth i roi ei fywyd trosom? Ac onid yw hefyd yn cynnig cyfle inni ddod at ein gilydd i gefnogi a chynnal ein gilydd mewn cyfnod ysbrydol digon oeraidd?Yn sicr ddigon cawn ein hatgyfnerthu a'n hadeiladu yng ngwirioneddau'r efengyl sydd yn datgan fod bywyd yn drech nag angau, gobaith yn drech nag anobaith a goleuni yn drech na thywyllwch. Y mae hyn yn hen ddigon o reswm dros groesawu tymor y Grawys a pharatoi at ddathlu gorfoledd a llawenydd y Pasg.

Y mae Llyfr y Pregethwr yn dweud fod yna dymor i bob peth. Onid nawr yw'r amser i ymbaratoi ar gyfer y Pasg?

Pob bendith
Judith
47 Glanceulan, Penrhyn-coch. SY23 3HF
Rhif Ffôn : 01970 820920 : E-bost : morris@coedlas.plus.com

**CALENDR MIS CHWEFROR**

| | | |
|---|---|---|
| SUL 3 CHWEFROR<br>10.30yb<br>2.30yp | <br>CLWB SUL<br>OEDFA GYMUN : GWEINIDOG<br>TE I DDILYN YR OEDFA | |
| SUL 10 CHWEFROR<br>10.30yb | <br>OEDFA DEULUOL : GWEINIDOG | |
| SUL 17 CHWEFROR<br>2.30yp | <br>Y PARCHEDIG SION ALED<br>(MASTERMIND CYMRU 2007) | |
| SUL 24 CHWEFROR<br>10.30yb | <br>OEDFA A CLWB SUL : GWEINIDOG | |
| SUL 2 MAWRTH<br>2.30yp | <br>OEDFA GYMUN : GWEINIDOG | Dathlu Gŵyl Ddewi a Sul y Mamau |

**I'CH DYDDIADUR**
4 Chwefror : Cinio Cymorth Cristnogol : Canolfan Fethodistaidd San Paul : 12.00-1.30yp
6 Chwefror : Cyfarfod Diaconiaid Horeb : Festri Horeb am 7.30yh
7 Chwefror : Astudiaeth Feiblaidd y Grawys : Y Morfa : 7yh
13 Chwefror : Os Mêts : Festri'r Garn yng Nghwmni Coleg y Bala: 7yh
20 Chwefror : Cymdeithas y Penrhyn: Bro a Bywyd Islwyn Ffowc Elis: Rheinallt Llwyd: 7.30yh
21 Chwefror : Astudiaeth Feiblaidd y Grawys : Bethel : 7yh
23 Chwefror : Bore Coffi Relate : Y Morlan : 10.00-12.30
27 Chwefror : Os Mêts : Festri'r Garn: Cwis yng Nghwmni Lyn Lewis Dafis: 7yh
28 Chwefror : Astudiaeth Feiblaidd y Grawys : Seion : 7yh

**LLOFFION**
Penblwydd Hapus iawn i :

- Mrs Megan Evans a ddathlodd ei phen-blwydd ym mis Ionawr
- Mrs Morfudd Morris a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ym mis Chwefror

Dymuniadau gorau i Mrs Connie Evans wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i:
- Elin Huxtable am dderbyn rôl newydd fel Ysgrifennydd Fforwm Ieuenctid yr Urdd, Ceredigion
- Jeremy Davies( gŵr Bethan, a tad Cemlyn a Trystan) ar gael ei benodi yn Brif Ddaearegwr Cymru.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r canlynol:

- Gwenan a Richard ar golli mam a mam-yng nghyfraith ynghyd â modryb yn ddiweddar.
- Linda a'r merched ar golli mam-yng-nghyfraith a mam-gu.

**NOSON GOFFI MUDIAD Y CHWIORYDD**
Diolch yn arbennig i bawb a gefnogodd y noson goffi ymhob ffordd. Diolch am eich cyfraniadau hael, am ddarparu'r adloniant ac am eich presenoldeb. Codwyd y swm o £585 ac yn ogystal, derbyniwd cyfraniad hael gan y wraig wâdd, Mrs Meryl Thomas. Diolch yn fawr.

**Y FENTER WEDDI**
O'r 3ydd hyd at y 29ain Chwefror, cynhelir menter weddi yng ngwesty'r Cambria (yr Hen Goleg) yn Aberystwyth. Neilltuwyd ystafell ar gyfer y pwrpas hwn drwy gydol y mis. Mae'n rhan o fenter fyd eang a'r pwrpas yw ceisio annog pobl i weddïo dros Gymru ac Aberystwyth. Os oes gennych ddiddordeb neu'n dymuno rhagor o wybodaeth cysylltwch â Judith.